# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2013 dccc 7

Nodiadau Esboniadol

# Active Travel (Wales) Act 2013

2013 anaw 7

Explanatory Notes

**£5.75**

# DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Hydref 2013 ac a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013. Maent wedi cael eu llunio gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ac nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Nid yw'r Nodiadau Esboniadol yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf ac ni fwriedir iddynt fod felly. Pan fo adran neu ran o adran yn ei hesbonio ei hun, ni roddwyd esboniad na sylw pellach.

3. Mae'r pwerau i wneud y Ddeddf i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ar gyfer Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, ac mewn cysylltiad â hi, yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth).

4. Mae cyfeiriad at awdurdod lleol yn y Nodiadau Esboniadol hyn yn gyfeiriad at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Adran 2 – Ystyr "llwybr teithio llesol" a "cyfleusterau cysylltiedig"**

5. Mae adran 2 yn nodi ystyr llwybr teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig. At ddibenion y Ddeddf rhaid i lwybr teithio llesol fod o fewn man ddynodedig mewn ardal awdurdod lleol. Pennir mannau dynodedig (megis trefi a dinasoedd) drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Awdurdodau lleol sydd i benderfynu pa lwybrau yn y mannau hynny y mae'n briodol eu hystyried yn llwybrau teithio llesol.

6. Caiff llwybr teithio llesol sy'n cynnwys priffordd fod yn briffordd a ddefnyddir gan gerbydau modur neu caiff fod yn fath arall o briffordd megis llwybr troed, llwybr beiciau neu lwybr ceffylau. Caiff hefyd fod yn llwybr nad yw'n cynnwys priffordd lle y mae'r tirfeddiannwr yn caniatáu i'r cyhoedd fynd. Fodd bynnag, ni all ffyrdd preifat lle na chaniateir i'r cyhoedd fynd fod yn llwybrau teithio llesol.

7. At ddiben y Ddeddf, ystyr "cerddwyr a beicwyr" yw pobl sy'n cerdded, pobl sy'n defnyddio beiciau pedal (gan gynnwys beiciau electronig/e-feiciau ond ac eithrio beiciau modur) a phobl sy'n defnyddio cymhorthion symudedd (gan gynnwys cadeiriau olwyn modur a sgwteri symudedd).

*These notes refer to the Active Travel (Wales) Act 2013 (anaw 7) which received Royal Assent on 4 November 2013*

# ACTIVE TRAVEL (WALES) ACT 2013

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Active Travel (Wales) Act 2013 which was passed by the National Assembly for Wales on 1 October 2013 and received Royal Assent on 4 November 2013. They have been prepared by the Department for Economy, Science and Transport of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

2. The Explanatory Notes are not, and are not meant to be, a comprehensive description of the Act. Where a section or part of a section is self-explanatory, no further explanation or comment is provided.

3. The powers to make the Act are contained in Part 4 of, and Schedule 7 to, the Government of Wales Act 2006. The National Assembly for Wales has legislative competence to make provision for and in connection with the Active Travel (Wales) Act 2013 by virtue of Schedule 7, subject 10 (highways and transport).

4. A reference to a local authority in these Explanatory Notes is a reference to a county council or a county borough council.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### Section 2 – Meaning of "active travel route" and "related facilities"

5. Section 2 sets out the meaning of an active travel route and of related facilities. An active travel route for the purposes of the Act must be within a designated locality in a local authority area. Designated localities (such as towns and cities) will be specified by direction of the Welsh Ministers. It will be for local authorities to determine which routes within those localities are appropriate to be regarded as active travel routes.

6. An active travel route comprising a highway may be a highway used by motorised vehicles or it may be another type of highway such as a footpath, cycle track or bridleway. It may also be a route not comprising a highway where the landowner allows the public to have access. However, private roads where the public are not allowed access are not capable of being active travel routes.

7. For the purpose of the Act, "walkers and cyclists" means people who walk, people who use pedal cycles (including electronic bicycles/e-bikes but excluding motorised cycles) and people who use mobility aids (including motorised wheelchairs and mobility scooters).

8. Dynodir mannau lle caiff llwybrau teithio llesol eu lleoli drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Cânt bennu man yn ôl enw. Cânt hefyd roi disgrifiad o'r mannau drwy gyfeirio at feini prawf, gan gynnwys y rhai a restrir yn is-adran (5). Gallent, er enghraifft, ddynodi trefi â phoblogaeth sy'n fwy na nifer benodedig, aneddiadau o fewn radiws penodol i drefi o'r fath, neu ardaloedd â dwysedd poblogaeth sy'n fwy na nifer benodedig o bobl y km2.

9. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried a yw llwybrau teithio posibl yn addas ar gyfer teithio llesol. Wrth wneud hynny, dylai awdurdod lleol ystyried a yw'r llwybr yn hwyluso gwneud teithiau teithio llesol ac a yw lleoliad, natur a chyflwr y llwybr yn ei wneud yn addas i'w ddefnyddio yn ddiogel. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau o dan yr is-adran hon, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt.

10. Mae is-adran (7) yn nodi beth a olygir gan daith teithio llesol. At ddiben y Ddeddf, taith teithio llesol yw taith a wneir i weithle neu sefydliad addysgol, neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill.

11. Mae is-adran (8) yn nodi ystyr cyfleusterau cysylltiedig mewn perthynas â theithio llesol. Gallai'r cyfleusterau hyn gynnwys, er enghraifft, gyfleusterau sy'n rhoi lloches a chyfleusterau i storio beiciau, a thoiledau a chyfleusterau ymolchi, ar yr amod eu bod ar gael i'w defnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau ar gyfleusterau cysylltiedig o dan is-adran (9).

**Adran 3 – Mapiau llwybrau presennol**

12. Rhaid i bob awdurdod lleol lunio map sy'n dangos y llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig yn ei ardal. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ar y mapiau hyn, y bydd wedyn angen i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau o dan yr is-adran hon, a allai gynnwys sut y caiff y llwybrau eu dangos ar y mapiau, ffurf y mapiau a'r broses y mae'n rhaid ei chyflawni i lunio'r mapiau ac ymgynghori arnynt.

13. Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno eu mapiau llwybrau presennol i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo o fewn un flwyddyn i gychwyn adran 3, neu erbyn dyddiad diweddarach pan fo hyn wedi ei bennu drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Ar yr un adeg â chyflwyno eu mapiau llwybrau presennol, bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno datganiad yn rhoi manylion unrhyw lwybrau teithio llesol sydd wedi cael eu cynnwys ar y mapiau nad ydynt yn bodloni safonau a bennwyd yn y canllawiau ac yn egluro pam, er hynny, yr ystyrir y llwybrau hyn yn llwybrau teithio llesol priodol. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r mapiau, cânt gyfarwyddo'r awdurdodau lleol i'w diwygio a'u hailgyflwyno erbyn dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd. Os nad yw'r mapiau yn cyrraedd y safon ofynnol o hyd, gellir ailadrodd y broses hon. Wrth gymeradwyo'r mapiau, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a yw'r awdurdod lleol wedi mapio'r llwybrau a'r cyfleusterau cysylltiedig yn unol â'u canllawiau, a pha un a ydynt wedi ymgynghori yn unol â chanllawiau o'r fath. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ystyried cynnwys unrhyw ddatganiad ac eglurhad.

8. Localities within which active travel routes are to be situated will be designated by direction of the Welsh Ministers. They may specify a locality by name. They may also specify a description of localities with reference to criteria, including those listed in subsection (5). They may for example designate towns with a population greater than a specified amount, settlements within a certain radius of such towns, or areas with a population density greater than a specified number of people per km2.

9. Subsection (6) requires a local authority to consider whether potential travel routes are suitable for active travel. In doing so, a local authority should consider whether the route facilitates the making of active travel journeys and whether the location, nature and condition of the route makes it suitable for safe use. The Welsh Ministers intend to issue guidance under this subsection, to which local authorities must have regard.

10. Subsection (7) sets out what is meant by an active travel journey. For the purpose of the Act, an active travel journey is a journey made to work or education or to access health, leisure or other services or facilities.

11. Subsection (8) sets out what is meant by related facilities in relation to active travel. These might for example include shelters and storage for cycles and toilets and washing facilities, as long as they are available for use by walkers and cyclists. The Welsh Ministers intend to issue guidance on related facilities under subsection (9).

**Section 3 – Existing routes maps**

12. Every local authority must prepare a map showing the existing active travel routes and related facilities in their area. Local authorities will be required to consult on these maps, which will then need to be approved by the Welsh Ministers. The Welsh Ministers intend to issue guidance under this subsection, which might include how the routes are depicted, the form of the maps and the process that must be undertaken to prepare and consult on the maps.

13. Local authorities must submit their existing routes maps to the Welsh Ministers for approval within one year of the commencement of section 3, or by a later date where this is specified by a direction of the Welsh Ministers. At the same time as submitting their existing routes maps, local authorities will be required to also submit a statement detailing any active travel routes that have been included on the maps that do not meet standards specified in guidance and explaining why it is considered appropriate to nevertheless regard these routes as active travel routes. If the Welsh Ministers do not approve the maps, they may direct the local authorities to revise them and resubmit them by a date specified in the direction. If the maps are still not to the required standard, this process can be repeated. In approving the maps, the Welsh Ministers will be considering whether the local authority has mapped the routes and related facilities in accordance with their guidance and whether the local authority has consulted in line with such guidance. The Welsh Ministers will also consider the content of any statement and explanation.

14. Rhaid i'r awdurdodau lleol ddiweddaru'r mapiau a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo bob tro y maent yn cyflwyno eu mapiau rhwydwaith integredig. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r mapiau gael eu hail-gyflwyno o fewn dwy flynedd, ar yr achlysur cyntaf, ac o hynny ymlaen bydd angen i'r mapiau gael eu hail-gyflwyno bob tair blynedd. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau lleol yn rhydd i ddiweddaru a diwygio'r mapiau rhwng y cyfnodau cyflwyno heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau ar y mapiau i helpu'r awdurdodau lleol i gyflawni'r dasg hon.

## Adran 4 – Mapiau rhwydwaith integredig

15. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol lunio ail fap, a fydd yn dangos y llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn datblygu neu wella rhwydwaith integredig. Map sy'n edrych ymlaen fydd hwn a bydd yn dangos sut y gallai'r rhwydwaith presennol gael ei ddatblygu yn y dyfodol. Caiff y cyfnod y mae'r map i ymwneud ag ef ei gynnwys mewn canllawiau i'w rhoi gan Weinidogion Cymru o dan adran 4.

16. Bydd yr un trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r mapiau gan Weinidogion, eu diwygio a dyroddi canllawiau arnynt yn gymwys i'r mapiau rhwydwaith integredig ag sy'n gymwys i'r mapiau llwybrau presennol. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol cyflwyno datganiad ac eglurhad a bydd yn ofynnol i'r mapiau rhwydwaith integredig gael eu hail-gyflwyno bob tair blynedd.

## Adran 5 – Cyhoeddi etc mapiau

17. Mae adran 5 yn nodi'r gofynion cyhoeddi mewn cysylltiad â'r mapiau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r mapiau a sicrhau eu bod ar gael yn rhad ac am ddim neu am bris cost ar gais. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt gylchredeg y mapiau ymhlith y bobl sy'n briodol yn eu barn hwy a dwyn y mapiau i sylw'r cyhoedd drwy hysbysiadau. Bydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau i awdurdodau lleol i'w helpu i benderfynu ar yr hyn sy'n briodol o ran cylchredeg eu mapiau.

## Adran 6 – Datblygu polisïau trafnidiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig

18. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynlluniau trafnidiaeth lleol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Ar hyn o bryd, caiff y rhain eu llunio ar y cyd gan awdurdodau lleol yn rhanbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r polisïau trafnidiaeth lleol ar gyfer y rhanbarth, gan gynnwys y polisïau i weithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn y rhanbarth. Lluniwyd y strategaeth honno gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

19. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'w mapiau rhwydwaith integredig wrth ddatblygu polisïau sy'n sail i gynlluniau trafnidiaeth lleol. Ni fydd yn ofynnol iddynt gyflawni'r holl gynlluniau yn y mapiau, gan gydnabod bod y rhain yn dibynnu ar ffactorau eraill, gan gynnwys prosesau statudol. Fodd bynnag, bydd angen i'r polisïau a'r cynlluniau yn y cynlluniau trafnidiaeth lleol gael eu nodi mewn ffordd sy'n hwyluso'r broses o ddarparu'r llwybrau a'r cyfleusterau yn y mapiau rhwydwaith integredig.

14. Local authorities must update and submit the maps to the Welsh Ministers for approval each time they submit their integrated network maps. This will mean that on the first occasion the maps will need to be re-submitted within two years, and from then onwards the maps will need to be re-submitted every three years. However, local authorities are free to update and revise the maps between submissions without the approval of the Welsh Ministers. The Welsh Ministers will issue guidance on the maps to support the local authorities in completing this task.

**Section 4 – Integrated network maps**

15. Local authorities will have to prepare a second map, which will show the new and improved active travel routes and facilities that they consider are necessary for the purpose of developing or enhancing an integrated network. This will be a forward looking map which will show how the existing network could be advanced in future years. The period to which the map is to relate will be included in guidance to be given by the Welsh Ministers under section 4.

16. The same arrangements for Ministerial approval, revision of the maps and guidance will apply to the integrated network maps as apply to the existing routes maps. However, there will be no requirement for the submission of a statement and explanation, and the integrated network maps will be required to be resubmitted every three years.

**Section 5 – Publication etc. of maps**

17. Section 5 sets out the publication requirements in respect of the maps. Local authorities will be required to publish the maps and make them available free or at cost price on request. They will also be required to circulate the maps amongst people who they consider appropriate and bring the maps to public attention via notices. The Welsh Ministers will issue guidance to local authorities to support them in determining what is appropriate for the circulation of their maps.

**Section 6 – Developing transport policies with regard to integrated network map**

18. Local authorities are required to produce local transport plans under the Transport Act 2000. These are currently prepared jointly by local authorities on a regional basis. These plans set out the local transport policies for the region, including policies for the implementation in the region of the Wales Transport Strategy prepared by the Welsh Ministers pursuant to section 2(1) of the Transport (Wales) Act 2006.

19. Section 6 requires that local authorities must have regard to their integrated network maps in developing policies forming the basis of local transport plans. They will not be required to deliver all of the schemes within the maps, recognising that these are reliant on other factors, including statutory processes. However, the policies and plans in the local transport plans will need to be set out in such a way as to facilitate the delivery of the routes and facilities in the integrated network maps.

**Adran 7 – Sicrhau gwelliant parhaus i lwybrau teithio llesol**

20. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ym mhob blwyddyn sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd ynghyd â gwelliannau i'r llwybrau a'u cyfleusterau presennol ar gyfer teithio llesol. Mae hyn yn golygu y disgwylir i awdurdodau lleol wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn i'w llwybrau a'u cyfleusterau, drwy gynyddu faint o lwybrau a chyfleusterau sydd ar gael a thrwy uwchraddio'r ddarpariaeth bresennol. Bydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau i helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud adroddiad i Weinidogion Cymru yn pennu'r costau a dynnwyd ganddynt ym mhob blwyddyn ariannol wrth gyflawni eu dyletswydd o dan yr adran hon.

**Adran 8 – Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar deithio llesol**

21. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol i ddangos i ba raddau y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud teithiau llesol yng Nghymru.

**Adran 9 – Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol**

22. Mae adran 9(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, pan fo'n ymarferol gwneud hynny. Mae'r swyddogaethau pan fo'r ddyletswydd yn gymwys yn cynnwys adeiladu, cynnal a chadw neu wella ffyrdd. Mae adran 9(2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan deddfwriaeth benodol arall yn ymwneud â phriffyrdd ee rheoleiddio traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Adran 10 – Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol**

23. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn modd sy'n hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau a gwasanaethau teithio llesol newydd a gwell. Rhaid i bob awdurdod lleol lunio adroddiad yn nodi beth y mae wedi ei wneud ym mhob blwyddyn ariannol o ran cyflawni'r ddyletswydd hon.

**Adran 11 – Adolygu gweithrediad y ddeddf**

24. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Ddeddf o fewn pum mlynedd i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r mapiau rhwydwaith integredig am y tro cyntaf. Dylai'r adolygiad hwn asesu llwyddiant y Ddeddf wrth greu llwybrau a chyfleusterau newydd a gwella'r rhai presennol.

**Section 7 – Securing continuous improvement in active travel routes**

20. Local authorities will be required in every year to secure new active travel routes and related facilities together with improvements to the existing routes and facilities for active travel. This means that local authorities will be expected to make year on year improvements to their routes and facilities by expanding the amount that is available and by upgrading existing provision. The Welsh Ministers will issue guidance to support local authorities in carrying out this duty. Local authorities will also be required to make a report to the Welsh Ministers setting out the costs that they have incurred in each financial year in performing their duty under this section.

**Section 8 – Reports by Welsh Ministers on active travel**

21. The Welsh Ministers will be required under this section to make and publish annual reports on the extent to which walkers and cyclists make active travel journeys in Wales.

**Section 9 – Provision for walkers and cyclists in exercise of certain functions**

22. Section 9(1) requires the Welsh Ministers and local authorities to take reasonable steps to enhance provision for walkers and cyclists when exercising certain functions under the Highways Act 1980, where it is practicable to do so. Functions where the duty will apply include the construction, maintenance, or improvement of roads. Section 9(2) further requires the Welsh Ministers and local authorities to have regard to the needs of walkers and cyclists in the exercise of their functions under certain other highways legislation e.g. traffic regulation under the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Section 10 – Duty to exercise functions to promote active travel**

23. This section requires the Welsh Ministers and local authorities to exercise their functions under the Act in a manner designed to promote active travel journeys and secure new and improved active travel routes and services. A report must be prepared by each local authority specifying what it has done in each financial year in the performance of this duty.

**Section 11 – Review of operation of Act**

24. Section 11 requires the Welsh Ministers to review the Act within five years of the deadline for the first submission of the integrated network maps. This review should assess the success of the Act in creating new and improving existing routes and facilities.

**Adran 12 – Cyfarwyddiadau a chanllawiau**

25. Bydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau i ategu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith. Byddant hefyd yn gwneud cyfarwyddyd i bennu pa aneddiadau sydd i'w cwmpasu gan y Ddeddf. Efallai y bydd angen iddynt hefyd wneud cyfarwyddiadau ynghylch y mapiau llwybrau presennol neu'r mapiau rhwydwaith integredig, os nad yw'r mapiau a gyflwynir i Weinidogion Cymru yn cyrraedd y safon ofynnol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau neu eu dirymu.

**Adran 14 – Cychwyn**

26. Bydd y darpariaethau yn y Ddeddf ynghylch y mapiau, datblygu polisïau cynlluniau trafnidiaeth lleol, y ddyletswydd i wella'n barhaus, y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth adeiladu a gwella priffyrdd a'r canllawiau ynghylch cerddwyr a beicwyr anabl yn dod i rym yn dilyn gorchymyn cychwyn. Diben hyn yw adlewyrchu faint o amser y bydd ei angen ar bob awdurdod lleol i lunio ei fapiau. Bydd y darpariaethau eraill yn dod i rym unwaith y bydd y Ddeddf wedi cael y Cydsyniad Brenhinol.

**COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

27. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cam o'r broses o basio'r Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir gweld Cofnod y Trafodion a gwybodaeth bellach am y broses o basio'r Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5750

| **Cam** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 18 Chwefror 2013 |
| Cam 1 - Dadl | 4 Mehefin 2013 |
| Cam 2 Y Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 4 Gorffennaf 2013 |
| Cam 3 Cyfarfod llawn – ystyried y gwelliannau | 1 Hydref 2013 |
| Cam 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | 1 Hydref 2013 |
| Cydsyniad Brenhinol | 4 Tachwedd 2013 |

**Section 12 – Directions and guidance**

25. The Welsh Ministers will issue guidance to support the delivery of the Act. They will also be making a direction to specify which settlements are to be covered by the Act. They may also need to make directions regarding the existing routes maps or the integrated network maps, if the maps submitted to the Welsh Ministers are not of sufficient standard. The Welsh Ministers may make changes to the guidance and directions or revoke them.

**Section 14 – Commencement**

26. The provisions in the Act surrounding the maps, the development of local transport plan policies, the continuous improvement duty, the provision for walkers and cyclists in highway construction and improvement and guidance about disabled walkers and cyclists will come into force following a commencement order. This is to reflect to amount of time it will require for each local authority to prepare their maps. The other provisions will come into force once the Act has received Royal Assent.

**RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

27. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5750

| **Stage** | **Date** |
|---|---|
| Introduced | 18 February 2013 |
| Stage 1 - Debate | 4 June 2013 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 4 July 2013 |
| Stage 3 Plenary - consideration of amendments | 1 October 2013 |
| Stage 4 Approved by the Assembly | 1 October 2013 |
| Royal Assent | 4 November 2013 |

**Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:**

**Ar-lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs:0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office) and available from:**

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10511-7

9 780348 105117